



DYFODOL
DISGLAIR
BRIGHTER
FUTURES

Gyrfa Cymru

Cynllun Gweithredol
2021-22



Gyrfa Cymru
Careers Wales

Crynodeb Gweithredol

2021-22 yw blwyddyn gyntaf Dyfodol Disglair, strategaeth bum mlynedd newydd Gyrfu Cymru ar gyfer darparu gwasanaeth gyrfaoedd o'r radd flaenaf i bobl Cymru. Datblygwyd y strategaeth mewn ymgynghoriad ag ystod amrywiol o randdeiliad, ac mae'n canolbwyntio'n yn llwyr ar anghenion cwsmeriaid.

Datblygwyd Dyfodol Disglair yn ystod un o'r blynyddoedd mwyaf heriol i ni ei gweld fel cenedl. Mae Gyrfu Cymru wedi gorfod wynebu'r heriau hynny hefyd ond mae nawr yn barod i gyflawni rôl allweddol yn adferiad economaidd y genedl; arwain dinasyddion Cymru i wneud penderfyniadau deallus am eu llwybrau gyrfu yn y dyfodol, cefnogi pobl i waith, hunangyflogaeth, addysg a hyfforddiant a helpu Cymru i Ailgodio'n Gryfach.

Mae tystiolaeth yn dangos bod y pandemig yn cael effaith anghymesur ar bobl ifanc. Mae eu cyfleoedd addysg, cyflogaeth a hyfforddiant wedi newid yn ddramatig, a bydd hyn yn effeithio ar eu rhagolygon yn y tymor byr a'r tymor hir. Bydd Dyfodol Disglair yn cynnig gwasanaeth personol, yn targedu cymorth i'r rhai sy'n fwyaf tebygol o wynebu rhwystrau i symud i bontio cadarnhaol cynaliadwy o addysg statudol. Bydd yn golygu y bydd pobl ifanc a'u rhieni'n fwy ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt yn economi Cymru yn y dyfodol. Ac mae'r weledigaeth yn sicrhau y bydd y cymorth hwnnw'n parhau i'r Sector Addysg Ôl-orfodol ac, am y tro cyntaf, yn cyrraedd i'r ysgolion cynradd, gan helpu i sicrhau bod pobl ifanc yn dechrau meddwl am yrfaedd o oedran cynharach.

Bydd mwy o gymorth ar gael i ysgolion godi safon eu Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Gwaith (GPhCG) gyda chyflwyniad Dyfarniad Ansawdd newydd Gyrfu Cymru. Bydd cysylltu pobl ifanc â chyflogwyr yn parhau i fod yn nod pwysig i Gyrfu Cymru, gan gyflawni rôl sylfaenol yn helpu pobl ifanc i ddeall yr ystod eang o gyfleoedd y gallant symud iddynt yn y dyfodol a helpu i ddatblygu cyflenwad o weithwyr talentog i Gymru.

Mae Dyfodol Disglair yn sicrhau llif di-dor trwodd i Cymru'n Gweithio, yn cynnig gwasanaeth sy'n cefnogi oedolion i gyflawni eu potensial a goresgyn rhwystrau drwy anogaeth a chyfarwyddyd gyrfaoedd ac yn darparu cynnig gwasanaeth gyrfaoedd clir i Gymru o'r ysgol gynradd i fyd oedolion.

Bydd Gyrfu Cymru yn parhau â'i daith trawsnewid digidol dros y pum mlynedd nesaf, gan gyflwyno nid yn unig y newidiadau technolegol a fydd yn darparu gwasanaeth personol, cwsmer-ganolog, hyblyg y gellir ei addasu, ond newid diwylliannol yn y sefydliad mewn ymrwymiad i wneud y defnydd gorau o'r dechnoleg sydd ar gael i ddiwallu anghenion cwsmeriaid yn well a chefnogi nodau Digidol 2030.

Mae'r pedwar nod strategol lefel uchel a'r canlyniadau strategol sy'n cyd-fynd â nhw ar gyfer Dyfodol Disglair wedi'u mynegi'n glir yn y Cynllun Gweithredol hwn, ynghyd â'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer 2021-22. Mae Gyrfu Cymru'n edrych ymlaen at gyflawni'r canlyniadau hyn i bobl Cymru.



Nikki Lawrence
Prif Swyddog Gweithredol, Gyrfu Cymru



Gwasanaethau i Bobl Ifanc

Bydd cynnig Gyrfu Cymru ar gyfer pobl ifanc mewn addysg yn 2021-22 yn wasanaeth personol wedi'i ddarparu mewn cydweithrediad ag ysgolion, colegau, darparwyr Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS) a phartneriaid a dylanwadwyr eraill, yn cynnwys rhieni. Bydd yn cynnwys yr holl randdeiliaid allweddol, gan sicrhau bod ein gwaith yn cael ei integreiddio, yn ataliol ac yn canolbwyntio ar gydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a thymor hir cwsmeriaid. Bydd y gwasanaeth yn canolbwyntio ar:

- ehangu gorwelion;
- codi eu hymwybyddiaeth o'r sgiliau sy'n ofynnol yn y farchnad lafur fodern;
- datblygu'r sgiliau allweddol ar gyfer cynllunio gyrfu, yn y tymor byr a'r tymor hir;
- cymorth ar bwyntiau pontio allweddol i bobl ifanc sydd ei angen.

Bydd gwaith yng Nghyfnod Allweddol 4 wedi'i dargedu, gyda chwsmeriaid yn cael eu dyrannu i un o dair lefel o gymorth, gan sicrhau bod ein hadnoddau'n cael eu defnyddio yn unol ag anghenion cwsmeriaid.

- Lefel Un - cymorth cyffredinol i'r bobl ifanc hynny a fydd yn helpu eu hunain drwy ein platfformau digidol a chyfryngau cymdeithasol ac yn mynychu sesiynau grŵp ¹.
- Lefel Dau – cymorth un-i-un i'r bobl ifanc hynny sydd wedi'u nodi fel rhai sydd angen cymorth ar ffurf cyfarwyddyd ac anogaeth.
- Lefel Tri – cymorth wedi'i dargedu i'r bobl ifanc hynny y gall eu nodweddion olygu nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant yn y cyfnod ôl-statudol.

Bydd cymorth mewn addysg yn parhau mewn lleoliadau Ôl-16 gyda chymorth yn canolbwyntio'n bennaf ar y dysgwyr sydd wedi'u nodi fel rhai sydd mewn perygl o beidio â chwblhau eu cwrs dysgu Ôl-16 a'r rhai sy'n hunan-atgyfeirio drwy'r arolwg Beth Nesaf. I'r bobl ifanc hynny sy'n penderfynu gadael addysg yn 16 oed a chael swydd neu ddilyn hyfforddiant, bydd cefnogaeth ar gael drwy wasanaeth Cymru'n Gweithio.

Gwasanaethau i Randdeiliaid

Am y tro cyntaf, bydd cymorth Gyrfu Cymru eleni yn cael ei ymestyn i ysgolion cynradd drwy wythnos rithwir GPhCG. Bydd hyn yn helpu i hyrwyddo dull cynllunio gyrfu ac ataliol tymor hir drwy annog pobl ifanc i ddechrau meddwl am fyd gwaith o oedran cynharach.

Mewn ysgolion uwchradd, bydd Cynghorwyr Ymgysylltu â Busnes Gyrfu Cymru'n hwyluso amrywiaeth eang o brofiadau yn y gweithle² i gefnogi pobl ifanc i wneud penderfyniadau gyrfu effeithiol, gan ategu gwaith Cynghorwyr Gyrfaoedd fel rhan o ddull tîm integredig. Bydd y tîm yn dadansoddi Asesiadau Gwirio Gyrfu a data arall i asesu'r math o ymgysylltu â chyflogwyr sydd ei angen ar ysgolion, a bydd y Cynghorwyr Ymgysylltu â Busnes yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i sicrhau bod gwaith yn cael ei dargedu ac yn canolbwyntio ar sectorau â blaenoriaeth rhanbarthol allweddol.

¹ Bwriedir darparu sesiynau grŵp i'r holl grwpiau o fis Medi ymlaen, er y bydd amgylchiadau unigol i ysgolion ddychwelyd ar ôl y cyfnod clo cyfredol yn amrywio a gall alluogi rhywfaint o ddarpariaeth.

² Cymerir yn ganiataol y bydd gwaith ymgysylltu â chyflogwyr yn gwbl ddiigidol nes Medi 2021.

I gefnogi'r gwaith o ddarparu rhaglenni Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Gwaith (GPhCG)³ gan ysgolion, bydd Cydgysylltwyr Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith yn darparu dysgu proffesiynol cysylltiedig â GPhCG ar gyfer athrawon / darlithwyr perthnasol mewn ysgolion a Sefydliadau Addysg Bellach drwy sesiynau hyfforddi ac ymgynghori. Byddant yn datblygu adnoddau GPhCG canolog a phwrpasol, ac yn cefnogi sefydliadau i gyflawni Nod Gyrfa Cymru. Mae gwaith y Cydgysylltwyr yn canolbwyntio ar well rhaglenni gyrfaoedd yn y tymor hir ac felly'n cefnogi dull ataliol drwy geisio sicrhau bod pobl ifanc yn fwy parod i wneud penderfyniadau gyrfa effeithiol drwy addysg gyrfaoedd o ansawdd uchel. Eleni, am y tro cyntaf, bydd y cynnig o gymorth gan Gydgyssylltwyr yn cael ei ymestyn i ysgolion cynradd. Bydd 2021/22 yn flwyddyn 'ddatblygu' bwysig i dîm y Cydgysylltwyr gyda chynhyrchu a chyflwyno dyfarniad GPhCG newydd a chynnig dysgu proffesiynol diwygiedig, mwy ffurfiol. Bydd yn cael ei ddarparu drwy ddull cymysg o sesiynau wyneb yn wyneb a digidol.

Digidol a Chyfathrebu

Mae Gyrfa Cymru wedi ymrwmo i ddarparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid ac sy'n ymateb i anghenion defnyddwyr. Bydd gwefan Gyrfa Cymru'n parhau i gael ei datblygu gyda chyfleuster chwilio am gyrsiau newydd, proffil cwsmeriaid newydd a chyfleuster mewngofnodi, gwybodaeth am swyddi a thueddiadau, cyfnewidfa busnes addysg ddatblygedig a chyfleuster chwilio gwefan newydd. Bydd cyflwyno system rheoli cysylltiadau cwsmeriaid newydd yn elfen allweddol i ddatblygu cynnwys marchnata newydd wedi'i bersonoleiddio a gweithgareddau a gwaith ymgysylltu a chyfathrebu gwell â rhanddeiliaid. Bydd canolfan gysylltu newydd yn cael ei chyflwyno a fydd yn cyfuno gyda'r system rheoli cysylltiadau cwsmeriaid newydd, gan wella profiad cwsmeriaid a chreu cyfleoedd ar gyfer sianeli digidol newydd lle y gall ychwanegu gwerth i daith y cwsmer.

Bydd ymgyrchoedd cenedlaethol proffil uchel fel Dechrau dy Stori, Aros, Paid Rhoi'r Gorau Iddi a Dewiswch eich Dyfodol yn parhau a bydd y tîm digidol yn parhau i arwain ar ddatblygu a darparu gweithgareddau ac adnoddau ar-lein yn cynnwys cymorth ar gyfer digwyddiadau a dyddiau agored rhithwir, adnoddau a chynnwys fideo i ddenu cynulleidfaoedd.

Cymru'n Gweithio

Mae gwasanaeth Cymru'n Gweithio yn rhan annatod o gynnis Gyrfa Cymru. Mae'n destun cytundeb ar wahân gyda Llywodraeth Cymru ac felly nid yw'n cael ei drafod yn y Cynllun Gweithredol hwn. Mae'n werth nodi, fodd bynnag, bod y cynnig o gymorth i bobl ifanc ac oedolion di-waith i bontio'n llwyddiannus a chadarnhaol i gyfleoedd addas yn golygu bod Gyrfa Cymru nawr yn darparu gwasanaeth gyrfaoedd pob oedran, di-dor i bobl Cymru, o'r ysgol gynradd i fyd oedolion.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Bydd Dyfodol Disglair yn cael ei weithredu'n unol â phum egwyddor gweithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:

- darparu'r sgiliau sydd eu hangen ar ein cwsmeriaid i gynllunio eu gyrfaoedd;

³ Cymerir yn ganiataol y bydd gwaith Cydgysylltwyr Gyrfaoedd a Byd Gwaith yn gwbl ddiidol nes Medi 2021.

- datblygu'r sgiliau sy'n hanfodol i wneud dewisiadau gyrfa effeithiol, helpu i atal cwsmeriaid rhag gadael addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant;
- mwy o integreiddio gyda rhanddeiliaid allweddol i wella canlyniadau cyflogaeth i bobl Cymru;
- annog cydweithio ar draws y sector i rannu arferion da, profiadau ac arbenigedd;
- hyrwyddo cynnwys gweithwyr Gyrfa Cymru, cwsmeriaid, rhieni/gofalwyr, dylanwadwyr a rhanddeiliaid wrth gynllunio, datblygu a gwerthuso gwasanaethau.

Mae Dyfodol Disglair yn cefnogi'r saith nod llesiant:

- cefnogi mynediad gwell at y farchnad lafur ar gyfer Cymru fwy lewyrchus;
- helpu i greu Cymru fwy cyfartal lle mae pobl yn cael eu hysbrydoli i fod ar eu gorau;
- cyfrannu at fanteision iechyd a lles a ddaw gyda mynediad gwell at gyfleoedd addysg, cyflogaeth a hyfforddiant;
- meithrin cydnerthedd ein cwsmeriaid i oresgyn unrhyw rwystrau maen nhw'n eu hwynebu;
- gweithio gyda modelau rôl i ddangos sut y gall yr economi helpu i greu Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang;
- hyrwyddo gwerth sgiliau Cymraeg yn y farchnad lafur;
- gweithio yng nghanol cymunedau a chyfrannu at gymunedau mwy cydlynus.

Y Gymraeg

Mae darparu gwasanaeth gwirioneddol ddwyieithog i bobl Cymru wedi'i gynnwys yn Nod 1 Dyfodol Disglair. Bydd Gyrfa Cymru'n parhau i gyflawni ac adrodd yn flynyddol ar ei Safonau Iaith.

Bydd Gyrfa Cymru'n parhau i gyfrannu at, ac ymateb i nod Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ar draws ei swyddogaethau, gan bwysleisio gwerth sgiliau Cymraeg yn ei waith ag unigolion, drwy sesiynau grŵp, digwyddiadau cyflogwyr 'Cymraeg yn y Gweithle' ac ymgyrchoedd marchnata. Bydd y cwmni hefyd yn gweithio gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru i gefnogi'r gwaith o ddarparu Cynllun Gweithredu cyfrwng Gymraeg Addysg Bellach a Phrentisiaethau y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.



Y Nodau Strategol

Nod 1: Darparu gwasanaeth cyfarwyddyd gyrfaoedd ac anogaeth dwyieithog, cynhwysol a diduedd i bobl Cymru.

Canlyniad Strategol 1:

Cefnogi pobl ifanc ac oedolion i bontio'n gadarnhaol i addysg, gwaith a hyfforddiant, gan gynnwys prentisiaethau a deall y sgiliau sy'n ofynnol i lwyddo yn y farchnad lafur a chyfrannu at economi Cymru yn y dyfodol.

Cyfnod Allweddol 3 (Blynyddoedd 9 a 9)

- Bydd gwaith yn canolbwyntio ar ehangu gorwelion a chodi dyheadau pobl ifanc. Bydd Cwis Buzz a Chwis Paru Swyddi ar gael i'r holl bobl ifanc.
- Bydd sesiynau grŵp yn cael eu cynnig i ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig. Byddant yn dewis o blith: Sgiliau ar gyfer y Dyfodol, Stereoteipio ar sail Rhywedd, Dewis Opsiynau, 'Sgiliau Dwyieithog yn y gweithle'.
- Bydd cymorth cyfarwyddyd ac anogaeth yn cael ei gynnig i bobl ifanc sydd wedi'u nodi fel rhai â datganiad a'r rhai sy'n hunangyfeirio i gael cymorth i ddewis opsiynau.

Cyfnod Allweddol 4 (Blynyddoedd 10 ac 11)

- Bydd y cymorth i bobl ifanc yn canolbwyntio ar eu cefnogi i wneud penderfyniadau gwybodus ac effeithiol. Bydd sesiynau grŵp ym Mlwyddyn 10 yn canolbwyntio ar Wybodaeth y Farchnad Lafur a sesiynau grŵp ym Mlwyddyn 11 yn canolbwyntio ar opsiynau Ôl-16, yn cynnwys prentisiaethau.
- Bydd cyfweiliadau cyfarwyddyd ac anogaeth yn cael eu darparu i bobl ifanc a nodwyd drwy Asesiad Gwirio Gyrfa am nifer o resymau. Bydd cymorth digidol ar gael i'r rhai nad ydynt wedi'u nodi fel rhai sydd angen cymorth un i un (tua 40% o'r cohort). Bydd y Cynghorydd Gyrfaoedd yn cysylltu â'r holl bobl ifanc ym Mlwyddyn 11.

Addysg Ôl-16

- Bydd ein cynnig yn canolbwyntio ar gefnogi pontio effeithiol i ddysgu a gwaith. Bydd pob cheched dosbarth a champws AB yn cael cynnig cyflwyniad digidol ar Opsiynau Ôl-16. Bydd cyfarwyddyd ac anogaeth yn cael eu darparu i'r rhai sy'n gofyn am gymorth ar ôl cwblhau arolwg Beth Nesaf.

DPA 95% o ddisgyblion sy'n derbyn gwasanaeth cyfarwyddyd ac anogaeth yn mynd i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant wrth adael ysgol.



Canlyniad Strategol 2:

Galluogi cwsmeriaid sydd wedi elwa o lefelau uwch o gefnogaeth i bontio'n gadarnhaol i ddarpariaeth briodol.

Cymorth wedi'i dargedu ym myd Addysg

- Bydd cynnig wedi'i dargedu Gyrfu Cymru'n darparu cymorth ychwanegol ym Mlwyddyn 11 i'r bobl ifanc hynny mewn addysg statudol (amcangyfrif o 30% o'r cohort) sydd mewn grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol⁴ mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant. Bydd pob un yn cael cynnig cyfweiliad cyfarwyddyd ac anogaeth, a bydd eu cynnydd yn cael ei fesur yn ystod y flwyddyn.

Pobl Ifanc sy'n derbyn addysg yn y cartref

- Bydd cymorth cyfarwyddyd ac anogaeth yn cael ei gynnig i'r holl bobl ifanc hysbys sy'n derbyn eu haddysg yn y cartref.

Sbardun (Prosiect a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, dod i ben Mawrth 2023)

- Parhau i ddarparu mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol, darparu cymorth mentora un i un, rhyngweithiadau grŵp a gwaith paratoi ar gyfer gwneud Profiad Gwaith wedi'i Deilwra.

Addysg ôl-16.

- Bydd yr holl bobl ifanc yr ystyrir eu bod 'mewn perygl' o beidio â chadw eu lle (Haen 4) mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant yn derbyn cymorth parhaus yn ystod eu 6 mis cyntaf mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant.

Cymorth i bobl ifanc ADY mewn ysgolion (Datganiadau a Chyferwerth â Datganiadau)

- Darparu'r cymorth canlynol i bobl ifanc mewn ysgolion arbennig a'r rhai sydd wedi cael datganiad mewn ysgolion prif ffrwd: Cyfweiliadau cyfarwyddyd ac anogaeth o Flwyddyn 9 drwodd i Flwyddyn 14; Presenoldeb mewn adolygiadau pontio o Flwyddyn 9 drwodd i Flwyddyn 14; Cwblhau Cynlluniau Dysgu a Sgiliau; adolygiadau Cynlluniau Dysgu a Sgiliau; Adolygiadau colegau arbenigol; Cwblhau Ceisiadau Cyllido Arbenigol.

Pobl ifanc 16-17 oed yn y farchnad lafur (NEET)

- Gyrfu Cymru/Cymru'n Gweithio sy'n gyfrifol am ddarparu cymorth i gwsmeriaid Haen 3 (pobl ifanc 16 ac 17 oed di-waith sy'n NEET ond sy'n chwilio am addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant). Cynigir cymorth hefyd i gwsmeriaid Haen 1 (Pobl ifanc na wyddir ble maent) a Haen 2 (Pobl ifanc 16 ac 17 oed di-waith nad ydynt ar gael neu sy'n methu cael mynediad i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant) a gafodd eu hatgyfeirio atom gan y Gwasanaeth Ieuencid neu asiantaeth arall a enwebwyd gan Gydgyssylltydd Ymgysylltu a Datblygu yr awdurdod lleol. Pwrpas y cynnig ar gyfer pobl ifanc yn y farchnad lafur yw eu cefnogi i wneud penderfyniadau gwybodus ac effeithiol er mwyn ymuno neu ailymuno â'r farchnad lafur.

⁴ Y rhai sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, Plant sy'n Derbyn Gofal, EOTAS (PRU a Chwricwlwm Amgen), Mewn Perygl o fod yn NEET, Gofalwyr Ifanc, School Action+, Mynychwyr Gwael.





Cefnogi Pobl Ifanc yn yr Ystadau Diogeled

- Byddwn yn gweithio gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a Llywodraeth Cymru i gefnogi pobl ifanc sy'n cael eu gosod mewn ystadau diogeled yng Nghymru drwy: eu cefnogi gyda chynllun ar gyfer rhyddhau a sicrhau datblygiad llwyddiannus; cysylltu â'r person ifanc neu ei weithiwr Cyfiawnder Ieuenctid o fewn 10 diwrnod o hysbysu am ryddhau; a chynnig cymysgedd o gymorth sy'n cynnwys sesiynau grŵp, cyfweiliadau, cyfeirio ac atgyfeirio at gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant priodol.

DPA 85% o bobl ifanc sy'n derbyn cymorth wedi'i dargedu yn mynd i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant wrth adael ysgol.

Canlyniad Strategol 3:

Codi ymwybyddiaeth cwsmeriaid o addysg, cyflogaeth a hyfforddiant a chyfleoedd arall i wneud cynnydd.

- Mae Ymwybyddiaeth o Gyfleoedd yn sgil allweddol ar gyfer cynllunio gyrfa'n effeithiol ac yn nodwedd o gyfweiliadau cyfarwyddyd ac anogaeth un-i-un, sesiynau grŵp a digwyddiadau cyflogwyr.
- Bydd cwsmeriaid yn cael hysbysu am wybodaeth am y farchnad lafur ar lefel swyddi, sector a rhanbarthol drwy wefan Gyrfu Cymru a fydd hefyd yn hwyluso cyfleoedd byw cyfredol sydd ar gael yng Nghymru.

DPA 90% o bobl ifanc mewn addysg yn dweud eu bod yn fwy ymwybodol o gyfleoedd.

Canlyniad Strategol 4:

Gwella mynediad at fanteision cymorth ar ffurf cyfarwyddyd gyrfaoedd ac anogaeth drwy gydweithredu ac ymgysylltu â phartneriaid a dylanwadwyr.

- Bydd Gyrfu Cymru'n llunio Cytundebau Partneriaeth gyda phob sefydliad y mae'n darparu ei wasanaethau iddo.
- Bydd Gyrfu Cymru'n cydweithio ag awdurdodau lleol a grwpiau rhieni i gefnogi'r bobl ifanc hynny sy'n derbyn eu haddysg yn y cartref a phartneriaid cenedlaethol fel y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar a Gofalwyr Ifanc Cymru i ddatblygu gwasanaethau.

Gweithio gyda Rhieni/Gofalwyr

- Bydd Gyrfu Cymru'n ymgysylltu â rhieni/gofalwyr i ehangu mynediad i wasanaethau drwy fynychu nosweithiau rhieni; cyflwyniadau mewn digwyddiadau Pontio Blwyddyn 6; cyswllt dilynol gyda rhieni/gofalwyr; diweddariadau tymhorol ar gyfer rhieni/gofalwyr wedi'u rhannu drwy blatfformau ysgol a choleg i gynnwys gwybodaeth am yrfaedd marchnad lafur a llwybrau dysgu'r dyfodol; ymgyrchoedd marchnata sy'n targedu rhieni/gofalwyr.

DPA Cytundebau Partneriaeth gyda'r holl sefydliadau partner sy'n galluogi mynediad gwell at fanteision cyfarwyddyd ac anogaeth gyrfaoedd.



Nod 2: Datblygu ein gwaith gyda chyflogwyr, darparwyr hyfforddiant ac entrepreneuriaid i ddeall eu gofynion sgiliau a'u cyfleoedd i bobl ifanc ac oedolion.

Canlyniad Strategol 5:

Hysbysu ac ysgogi pobl ifanc ynglŷn â'r byd gwaith drwy ymgysylltu â chyflogwyr a modelau rôl.

Ysgolion Cynradd – Cyflwyniad i Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Gwaith (GPhCG)

- Bydd Gyrfa Cymru'n darparu wythnos rithiwr GPhCG i bob ysgol gynradd yn ystod Chwefror 2022 i gynnwys amrywiaeth o sesiynau cyflogwyr digidol fel gweminarau, sesiynau holi ac ateb byw, trafodaethau panel, fideos wedi'u recordio ymlaen llaw. Bydd cyfres o gynnwys fideo ar ffurf 'diwrnod ym mywyd' i gyflwyno amrywiaeth o yrfaeodd i blant o oedran cynradd yn cael eu cynhyrchu hefyd.

Ysgolion Uwchradd

- Nod cynnig Gyrfa Cymru i ysgolion yw ehangu gorwelion a chodi dyheadau disgyblion (CA3) a chael disgyblion i wneud penderfyniadau gyrfa gwybodus ac effeithiol (CA4). Bydd y cynnig hwn yn cynnwys wythnos rithwir GPhCG yn ystod Gorffennaf 2021; gweminarau o ansawdd uchel ar sail sector neu gyflwyniadau cyflogwyr byw; ffeiriau gyrfaoedd 'Dewiswch eich Dyfodol' effaith uchel; fersiwn ddigidol o ddigwyddiadau Dewiswch eich Dyfodol; parhau gyda'r cynnig digidol cyfredol hyd at fis Gorffennaf 2021; diwrnod carwsél Byd Gwaith yn CA3 a CA4; dau gyflwyniad cyflogwyr a/neu ymweliadau â safleoedd cyflogwyr.

Sbardun

- Bydd gweithgarwch ymgysylltu'n gysylltiedig â Sbardun ar ffurf cyflwyniadau, ymweliadau safle a phrofiad gwaith wedi'i deilwra yn CA4 lle bo'n briodol yn cael ei ddarparu mewn ysgolion uwchradd, ysgolion arbennig ac Unedau Cyfeirio Disgyblion.

Ysgolion Arbennig / Unedau Cyfeirio Disgyblion

- Bydd pob ysgol arbennig ac Uned Cyfeirio Disgyblion yn cael cynnig cymorth ymgysylltu â chyflogwyr pwrpasol.

Cymorth i gyflogwyr

- Bydd Gwobrau Partneriaid Gwerthfawr yn cael eu hwyluso drwy wythnos ddathlu ar y cyfryngau cymdeithasol ym mis Mai 2021 a digwyddiad dathlu byw ym mis Tachwedd 2021, cyhyd â bo'r cyfyngiadau'n caniatáu hynny. Bydd adnodd e-ddysgu cyflogwyr yn parhau i gael ei gynnig i gyflogwyr.

Digidol a Chyfathrebu

- Yn 2021-22 bydd Cyfnewidfa Busnes Addysg newydd yn cael ei defnyddio ar wefan Gyrfa Cymru a chyfres o fideos modelau rôl yn cael eu cynhyrchu.

DPA Gyrfa Cymru'n hwyluso o leiaf un digwyddiad ymgysylltu â chyflogwyr mewn 95% o ysgolion uwchradd yng Nghymru.

Canlyniad Strategol 6:

Codi ymwybyddiaeth pobl ifanc o'r sgiliau sydd eu hangen ar sectorau sy'n flaenoriaeth yn economaidd a sut maen nhw'n cysylltu â'r cwricwlwm.

- Bydd ysgolion yn cael cynnig sesiynau grŵp pwrpasol i amlygu sectorau twf. Bydd gwaith yn cael ei wneud gyda'r Partneriaethau Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol i sicrhau bod digwyddiadau ymgysylltu â chyflogwyr yn adlewyrchu'r sectorau â blaenoriaeth ledled Cymru.
- Bydd adran tueddiadau swyddi newydd yn cael ei datblygu ar gyfer gwefan Gyrfa Cymru a fydd yn cynnwys manylion am sectorau â blaenoriaeth.

DPA | **Dywedodd 80% o gwsmeriaid eu bod yn fwy ymwybodol o'r sgiliau sy'n ofynnol gan sectorau â blaenoriaeth economaidd.**

Nod 3: Cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm i Gymru a chyfrannu at gyflawni'r pedwar diben.

Canlyniad Strategol 7:

Gwella capasiti ysgolion ac Arweinwyr Gyrfaoedd i ddarparu GPhCG o fewn y Cwricwlwm i Gymru.

Marc Gyrfa Cymru a dyfarniad GPhCG newydd

- Bydd y Marc cyfredol yn cael ei ddisodli gan ddyfarniad newydd yn ystod blwyddyn y cynllun busnes a'i gynnig i ysgolion cynradd ac uwchradd. Bydd gan ddarparwyr sydd wedi cofrestru ar gyfer y dyfarniad cyfredol hyd at fis Rhagfyr 2021 i'w gwblhau.

Dysgu Proffesiynol

- Bydd Cydgysylltwyr Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith yn parhau i gynnig hyfforddiant ac ymgynghoriaeth un-i-un i ysgolion uwchradd a SAB ar amrywiaeth o bynciau allweddol rhwng Ebrill a Gorffennaf 2021.
- Bydd cynnig Dysgu Proffesiynol diwygiedig yn cael ei gyhoeddi o fis Medi 2021 ymlaen drwy gonsortia rhanbarthol, Addysgwyr Cymru ac ati. Bydd y cynnig ar gael i athrawon ar draws yr ystod oedran 3-16 a bydd wedi'i gysylltu'n uniongyrchol â'r cwricwlwm newydd a chanllawiau statudol GPhCG. Bydd Gyrfa Cymru'n gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid i gefnogi datblygiad dysgu proffesiynol.

Adnoddau GPhCG

- Mae Gyrfa Cymru wedi datblygu amrywiaeth o adnoddau GPhCG, yn cynnwys 'Dinas Gyrfaoedd' i athrawon cynradd, a bydd yn parhau i lenwi adran Gyrfa Cymru ar Hwb.

DPA | **Mae cymorth hyfforddiant neu ymgynghoriaeth i wella rhaglenni GPhCG yn cael ei ddarparu i athrawon mewn 65% o ysgolion uwchradd yng Nghymru.**





Nod 4: Datblygu gweithlu medrus, brwd ac ystwyth yn Gyrfu Cymru a'i alluogi i ddarparu gwasanaethau sy'n perfformio'n dda ac sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid

Canlyniad Strategol 8:

Darparu gwasanaethau wedi'u personoli, sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, wedi'u gwella gan dechnoleg, sy'n ymatebol i anghenion defnyddwyr ac yn hygyrch i bawb.

- Bydd mwy o arloesedd yn cael ei adlewyrchu yn ein cynnig ar draws pob maes gwaith yn 2021-22. Bydd datblygiadau'n cynnwys: datblygu gwasanaethau a chynnwys digidol, arloesol i gwsmeriaid yn cynnwys digwyddiadau rhithwir, ffeiriau swyddi ar-lein, podlediadau a gweminarau; darparu canolfan cyswllt cwsmeriaid a gwasanaeth llinell gymorth effeithiol drwy gyflwyno gwasanaethau digidol aml-sianel; cynyddu cyrhaeddiad ac ymgysylltiad sianeli cyfryngau cymdeithasol cwmnïau; defnyddio system rheoli gwybodaeth cwsmeriaid newydd i ddatblygu marchnata ddigidol wedi'i phersonoli, fwy soffistigedig; datblygu profiad wedi'i bersonoli i gwsmeriaid ar y wefan.

DPA Dywedodd 85% o gwsmeriaid fod eu hanghenion wedi'u diwallu gan wasanaeth ar-lein.

Canlyniad Strategol 9:

Creu gweithlu Gyrfu Cymru hynod fedrus, brwd, amrywiol ac ystwyth.

- Bydd y cwmni'n darparu hyfforddiant gan ddefnyddio technolegau newydd; hyfforddiant ar fethodoleg prosiect Ystwyth i'r holl staff; elfennau llesiant thema penodol i wella ymgysylltiad; gwelliannau i waith amrywiaeth.
- Bydd y cwmni'n cynnal prosiect cymwyseddau ymddygiad a swydd i wella effeithiolrwydd rheoli a thîm; adolygu ac ad-drefnu patrymau gweithio/oriau gwaith y cwmni ar ôl y pandemig i helpu ystwythder; cyflwyno prosiect llais gweithwyr i wella ymgysylltiad, pwrpas a pherchnogaeth; adolygu strwythur swyddi i brofi a ydynt yn addas i ddiben; cyflwyno partneriaeth cymdeithasol undeb i wella cysylltiadau diwydiannol; gwella rhagolygon staff; adolygu model amser dysgu a dull anogaeth; datblygu cysylltiadau rhwng dysgu a pherfformiad i ddangos effaith ar wella lefelau cymorth i gwsmeriaid.
- Bydd y cwmni'n parhau i hyfforddi ac achredu ei Gynghorwyr Gyrfaoedd a Hyfforddwyr Cyflogadwyedd dan hyfforddiant, gan sicrhau eu bod yn cael amgylchedd dysgu sy'n cymysgu dysgu a phrofiad ymarferol yn y gweithle, cymorth gan fentoriaid-cymheiriad a dysgu academaidd.

DPA Mae pob cynghorydd gyrfaoedd dan hyfforddiant yn cwblhau ei Ddiploma Cyfarwyddyd a Datblygiad Gyrfu lefel 6 yn llwyddiannus o fewn y ddwy flynedd a roddir.
Mae 75% o weithwyr yn dweud eu bod yn cael lefelau ymgysylltu cadarnhaol gyda'r cwmni.

Canlyniad Strategol 10:

Gwneud y defnydd gorau o dechnoleg i drawsnewid ein ffyrdd o weithio a datblygu sgiliau a galluoedd digidol holl weithwyr Gyrfu Cymru.



- Bydd Cynghorwyr Gyrfaoedd yn darparu eu cymorth cyfarwyddyd ac anogaeth mewn ffordd gyfunol gan wneud y defnydd gorau o gyfweiliadau fideo a sesiynau grŵp ffrydio byw. Bydd cynlluniau peilot yn defnyddio system archebu ar-lein ar gyfer apwyntiadau rhieni'n cael eu cyflwyno hefyd.
- Bydd y system rheoli gwybodaeth cwsmeriaid newydd, Atlas, a'r system AD, Pobl, yn parhau'r gwaith o drawsnewid ein prosesau mewnol yn ddigidol.

DPA | Gwelliant yn sgiliau digidol a galluoedd gweithwyr Gyrfa Cymru.

Canlyniad Strategol 11:

Seilio ein datblygiadau o ran strategaeth, polisi a gwasanaeth ar ein dealltwriaeth o gwsmeriaid, gwybodaeth fusnes, data a dadansoddeg.

- Bydd Gyrfa Cymru'n codi ymwybyddiaeth ac yn gwella dealltwriaeth o'i wasanaethau i randdeiliaid/dylanwadwyr allweddol drwy weithgarwch cysylltiadau cyhoeddus; yn defnyddio Google a dadansoddeg cyfryngau cymdeithasol a thechnegau ymchwil defnyddwyr fel sail i ddatblygu a gwella gwasanaethau a chynnwys yn barhaus; yn ymgysylltu â grwpiau cwsmeriaid allweddol, rhanddeiliaid a dylanwadwyr i fesur faint maen nhw'n ei wybod am wasanaethau Gyrfa Cymru; yn parhau i gynnal arolygon adborth cwsmeriaid parhaus sy'n amlygu dealltwriaeth allweddol cwsmeriaid ac unrhyw feysydd i'w gwella neu eu hehangu.
- Yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn cynhelir astudiaeth dichonoldeb i asesu potensial cysylltu data Gyrfa Cymru ag amrywiaeth o setiau data eraill a datblygu 'Hyb Data' fel y gellir dadansoddi data cwmnïau i lywio darpariaeth wrth symud ymlaen a chyfrannu at lunio polisiau'n ehangach.





**DYFODOL
DISGLAIR
BRIGHTER
FUTURES**

